**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**7/6/22**

**Presennol:** **Y Cynghorwyr** Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Huw Antur, Dewi Wyn Jones, , Alwyn Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** Carwyn Siddall (am ran o'r cyfarfod). Diolchwyd i Carwyn Siddall ac i Ann Jones am eu hymdrechion gyda'r dechnoleg newydd y Neuadd.

**Ymddiheuriadau:** Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones, Euros Roberts

1 Cyflwynodd yr aelodau Datganiad Derbyn Swydd a'r Cod Ymddygiad yn dilyn etholiadau Mai 2022.

2 Cyflwynodd y Cynghorwyr eu taflenni ar gyfer y Gofrestr Buddiannau.

3 Derbyniwyd gwybodaeth am lwfansau cynghorwyr (a'r hawl i'w wrthod yn ysgrifenedig):

- Cytunwyd i beidio mabwysiadu cynllun tal mynychu cyfarfodydd.
- Cytunwyd i fabwysiadu taliad o £150 yr un y flwyddyn gan fod yn ymwybodol fod y tal hwn ar gael i bob Cynghorydd unigol. Nodwyd y gall unigolion wrthod derbyn y tal hwn trwy lythyr at y Clerc. Bydd y taliad yn cael ei wneud ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd y swm angenrheidiol yn cael ei gynnwys yn y Gyllideb.
- Cytunwyd i dalu 0.45c y filltir os yn teithio ar fusnes y cyngor.
- Cytunwyd i dalu am aros dros nos ac am warchod os ar fusnes y Cyngor.

4 Derbyniwyd gwybodaeth am gynnal cyfarfodydd hybrid.

5 Penodwyd dyddiadau cyfarfod ar gyfer y flwyddyn 2022-23:

| | |
|---|---|
| 9/6/22 | Cyfarfod Blynyddol 2022-23 |
| 5/7/22 | |
| 8/9/22 | |
| 4/10/22 | |
| 1/11/22 | |
| 6/12/22 | |
| 3/1/23 | |
| 7/2/23 | |
| 7/3/23 | |
| 4/4/23 | |
| 2/5/23 | Cyfarfod Blynyddol 2023-24 |

6 Ystyriwyd meini prawf angenrheidiol cyn gwneud cais am statws Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol:

i. *Rhaid bod wedi derbyn Adroddiad Ariannol diamod*

ii. *Rhaid bod cymhwyster CiLCA gan y clerc*

iii. *Rhaid bod dwy ran o dair wedi bod trwy etholiad*

Nid yw'r Cyngor yn cyrraedd maen prawf ii a iii uchod.

7 Ystyriwyd anghenion Hyfforddiant 2022-23. Awgrymwyd trefnu cyfarfod gyda Chymorth Cynllunio Cymru (Planning Aid Wales) a gwahodd Cyngor Llangywer i ymuno. Efallai bydd yr is-bwyllgor bioamrywiaeth hefyd yn ystyried yr angen am hyfforddiant yn y maes.

8 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2021.

9 Etholwyd Beryl Hughes Griffiths yn Gadeirydd am y flwyddyn 2022-23.

<u>O dan gadeiryddiaeth y Cadeirydd:</u>

10 Etholwyd Euros Roberts yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2022-23.

11 Ystyriwyd enwebiadau ar gyfer y sedd wag. Mewn pleidlais gudd dewiswyd Llinos Edwards fel Cynghorydd.

12 Cadarnhawyd Ymddiriedolwyr Elusen *The Maurice Vaughan Charity* sef: Caradog Evans, Karl Jones, Siôn Llewelyn, Euros Roberts, Lis Puw (Clerc)

13 Penodwyd Cynghorwyr i weithredu ar is-bwyllgorau:

- Is bwyllgor Cyllid: Cadeirydd y Cyngor, Beryl Hughes Griffiths Alwyn E Jones, Huw Antur, Alwyn Roberts, Bethan Edwards, Lis Puw
- Is-bwyllgor Mynwentydd: Alwyn Roberts (Cadeirydd), Heledd Jones, Huw Pierce Roberts, Arwel LL Jones, Rhodri Jones, Alan Jones Evans, Bethan Edwards
- Is-bwyllgor Asedau: Cadeirydd y Cyngor, Huw Antur, Alwyn Jones, Arwel Lloyd Jones, Rhodri Prys Jones, Bethan Edwards
- Cynllun Ardal: Huw Antur (Cadeirydd), Alwyn Evans Jones, Dewi Jones, Beryl Hughes Griffiths, Llinos Edwards, Cynghorydd Alan Jones Evans, Lis Puw
- Is-bwyllgor y Nadolig: Heledd Jones (Cadeirydd), Arwel Lloyd Jones, Alwyn Jones, Euros Roberts
- Is-bwyllgor bioamrywiaeth: Rhodri Jones, Euros Roberts, Llinos Edwards, Alan Jones Evans, Lis Puw

14. Enwebwyd Huw P Roberts yn gynrychiolydd yng nghyfarfodydd ardal Un Llais Cymru.

15. Enwebwyd Alwyn E Jones a Huw Antur yn gynrychiolwyr ar Bartneriaeth Penllyn.

16. Adolygwyd a chadarnhawyd y Rheolau Sefydlog (*gweler y wefan)*

17. Adolygwyd a chadarnhawyd y Cod Ymddygiad (*gweler y wefan)*

18. Adolygwyd a chadarnhawyd y Rheoliadau Ariannol *(gweler y wefan)*

19. Adolygwyd rhestr o eiddo ac asedau'r Cyngor (SAC - *Swyddog Ariannol Cyfrifol*) a bydd hwn yn cael ei anfon at yr is-bwyllgor Asedau.